

Canllaw Arfer Da – Eco Deithio

Cyflwyniad

Fel rhan o Our Bright Future, mae gan bob un o'r 31 prosiect sy'n cymryd rhan gyfrifoldeb i arwain drwy esiampl ac ymgorffori camau gweithredu ac agweddau cynaliadwy ym mhob agwedd ar eu prosiect. Mae hyn yn cynnwys teithio carbon isel a chynaliadwy, ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain. Yn ôl ffigurau newydd y Llywodraeth, mae'r rhan fwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr bellach yn dod o drafnidiaeth (BEIS, 2018) a dywedir ei bod yn well gan Brydeinwyr deithio mewn car yn hytrach na mynd ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac mae ganddynt farn negyddol iawn am feicio (YouGov, 2019). Mae gan brosiectau Our Bright Future gyfle i hyrwyddo teithio carbon isel a chynaliadwy ac ehangu ei effaith barhaol ar y bobl ifanc sy'n cymryd rhan, ar eu cymunedau ac ar yr amgylchedd yn gyffredinol. Mae'r opsiynau ar gyfer hyrwyddo teithio carbon isel a chynaliadwy mewn prosiect yn cynnwys y canlynol:

- **cyngori cyfranogwyr y prosiect** i deithio i ddiwydiadau/hyfforddiant/gweithdai gan ddefnyddio'r dull mwyaf cynaliadwy o deithio
- staff prosiect yn **cymudo** i/o'r gwaith gan ddefnyddio'r dull mwyaf cynaliadwy o deithio
- aelodau **Our Bright Future** yn teithio i **gyfarfodydd a digwydiadau** rhanbarthol/blynyddol gan ddefnyddio'r dull mwyaf cynaliadwy o deithio

Dylai Our Bright Future yn ei gyfanrwydd, a phob prosiect unigol, anelu at fod ag ôl troed carbon mor isel â phosib. Mae arferion teithio ymhlith yr elfennau allweddol sy'n pennu ôl troed carbon unigolyn neu sefydliad a gall dewis math penodol o drafnidiaeth dros un arall leihau (neu gynyddu) yn sylweddol faint o allyriadau carbon deuocsid mae sefydliad yn gyfrifol amdanynt. Er enghraifft, mae teithio o Fryste i Lundain yn unig mewn car petrol yn cynhyrchu 29.5 kg CO₂e, ond dim ond 8.85 kg CO₂e sy'n cael ei gynhyrchu wrth deithio ar drên (gwerthoedd wedi'u cyfrif gan ddefnyddio ein [cyfrifiannell ôl troed carbon](#)).

Beth yw ôl troed carbon?

Ôl troed carbon yw cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a achosir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan sefydliad, cynnyrch neu weithgaredd. Mae chwe nwy tŷ gwydr gwahanol yn cael eu cynnwys a'u mesur fel rheol o ran cyfwerth â CO₂, a dyma sut cawn y term cyffredin ôl troed 'carbon'.

Drwy gyflawni ôl troed carbon mor isel â phosib mae Our Bright Future yn gosod esiampl gref ar gyfer rhaglenni ieuencid a chymunedol eraill ac mae'n sicrhau bod gwaddol ac effaith y rhaglen yn gadarnhaol.

Mae Cyfarwyddyd Eco Deithio Our Bright Future a nodir isod yn rhoi canllawiau ar sut gall pob prosiect, a'r rhaglen gyfan, hyrwyddo trafnidiaeth carbon isel a chynaliadwy a lleihau eu hól troed carbon.

Cyfarwyddyd Teithio

Cyngori Cyfranogwyr y Prosiectau

Dylai pob prosiect gynghori cyfranogwyr y prosiect i deithio i ddigwyddiadau, hyfforddiant a gweithdai ac ati y prosiect gan ddefnyddio'r dull mwyaf cynaliadwy o deithio. Gellir cyflawni hyn drwy roi'r hierarchaeth deithio syml hon iddynt:

cerdded/beicio > trafnidiaeth gyhoeddus (bws/trên) > rhannu car > car > cwch > awyren

SYLWER: mae hon yn hierarchaeth deithio syml iawn ac nid yw ffactorau penderfynu allweddol eraill fel pellter teithio, nifer yr unigolion a model y car, trên neu awyren, wedi cael eu hystyried, a all effeithio ar ôl troed carbon dull o deithio hefyd. Dylid ystyried y dull o deithio i/o faes awyr neu borthladd fferi hefyd.

Dylid rhoi cyngor hefyd i gyfranogwyr ar sut i deithio i bob digwyddiad ar drafnidiaeth gyhoeddus a dylid rhoi manylion y llwybr cerdded/beicio agosaf iddynt os yw'r digwyddiad yn lleol. Os yw teithio mewn car yn hanfodol, dylid eu hannog i rannu car (gyda chymhellion os yw'r gyllideb yn caniatáu).

Cymudo

Dylid annog a chefnogi staff y prosiect hefyd i gymudo i/o'r gwaith gan ddefnyddio'r dull mwyaf cynaliadwy o deithio. Amlinellir yr opsiynau ar gyfer gwneud hynny isod:

- [Cynllun Beicio i'r Gwaith](#) - mae'r cynllun am ddim i ymuno ag ef ac mae'n caniatáu i weithwyr gael beiciau cymudo drwy eu cyflogwr, gan rannu'r gost dros 12 mis a chael arbediad drwy ryddhad treth. Mae'n hyrwyddo ffordd iachach o fyw a chymudo carbon isel i'r gwaith.
- Os yw'r gyllideb yn caniatáu rhwch lwfansau/gwobrau i'ch gweithwyr am rannu ceir, cymryd rhan mewn cynlluniau rhannu ceir a/neu deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- Dylid annog gweithwyr i ddefnyddio systemau mewnol i archebu teithiau, gan roi mwy o ddylanwad i chi dros eu dull o deithio. Mae Cyfrifiannell Ôl Troed Carbon ar gyfer penderfynu ar y dull gorau o deithio ar gael [yma](#). Darllenwch yr wybodaeth sydd wedi'i hatodi ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Os yw'r gyllideb yn caniatáu sicrhewch ddefnydd o feiciau cymunedol/ trydan i weithwyr i deithio i ddigwyddiadau prosiect ac ati a sicrhau bod storfa beiciau a chawodydd ar gael.

Teithio i gyfarfodydd a digwyddiadau Our Bright Future

Dylid teithio i/o gyfarfodydd a digwyddiadau Our Bright Future, fel y gweithdai rhanbarthol a'r seminar flynyddol, gan ddefnyddio'r dulliau trafnidiaeth mwyaf cynaliadwy a charbon isel posib. I benderfynu ar y mathau hyn o drafnidiaeth, defnyddiwch y [Cyfrifiannell Ôl Troed Carbon](#) a nodir uchod hefyd a darllenwch yr wybodaeth ategol ar ddiwedd y ddogfen hon yn ofalus.

Cyfarfodydd Rhithwir

Y ffordd symlaf o leihau eich ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â theithio yw ei osgoi. Dylid defnyddio technoleg fel galwadau cynhadledd a fideo pan fo hynny'n bosib i leihau teithio diangen.

Cyfarwyddyd Llogi Ceir

Os yw teithio mewn car yn hanfodol, os yw hynny'n bosib dylid llogi car sy'n fwy effeithlon o ran tanwydd, fel car hybrid neu drydan.

Cyfarwyddyd Awyrennau

Os penderfynir bod teithio mewn awyren yn hanfodol neu, mewn achosion prin, os mai hwn yw'r dull mwyaf cynaliadwy o deithio, dylai'r daith fod yn ddi-stop (gan mai codi i'r awyr/glanio sy'n rhyddhau'r cyfrannau mwyaf o allyriadau) a dylid archebu tocynnau economi¹. Mae angen ystyried y dull o deithio i/o'r maes awyr hefyd.

Argymhellir gwrthbwysu carbon hefyd. Mae'r cynlluniau gwrthbwysu carbon credadwy i'w defnyddio i'w gweld [yma](#). Cofiwch gynnwys teithio i/o'r maes awyr wrth gyfrif ôl troed carbon y daith ac felly'r gwrthbwysu carbon sydd ei angen. Beth yw gwrthbwysu carbon?

Beth yw gwrthbwysu carbon?

Defnyddir gwrthbwysu carbon i wneud iawn am eich allyriadau carbon drwy ariannu cynllun gwrthbwysu carbon a fydd yn gwneud gostyngiadau cyfatebol mewn allyriadau carbon yn rhywle arall. Mae'r cynlluniau'n cynnwys prosiectau fel plannu coed a ffermydd gwynt.

Fodd bynnag, dywed amgylcheddwyr bod llawer o broblemau'n ymwneud â gwrthbwysu ac maent mor fawr fel y dylai gwrthbwysu carbon fod yn ddewis olaf ar ôl i chi leihau eich allyriadau carbon drwy ddulliau eraill h.y. drwy ddefnyddio mathau carbon isel a chynaliadwy o drafnidiaeth.

Cyfrifiannell Ôl Troed Carbon ar gyfer Siwrnai Sengl

Mae'r gyfrifiannell ôl troed carbon sydd wedi'i datblygu ar gyfer ei defnyddio o dan Gyfarwyddyd Teithio Our Bright Future **yn unig** wedi cael ei dyfeisio gan ddefnyddio [Ffactorau Trosi GHG Llywodraeth y DU ar gyfer Adroddiadau Cwmni 2018](#). Ceir gwybodaeth fanylach am y ffactorau penderfynu a ddefnyddiwyd a'r meysydd camgymeriad ar [wefan UK GOV](#).

I ddefnyddio'r gyfrifiannell Ôl Troed Carbon, penderfynwch ar eich opsiynau trafndiaeth i ddechrau, h.y. bws, trê, car ac ati, ac wedyn penderfynu ar y pellter a deithiir (**mewn km**) rhwng eich man cychwyn a'ch cyrchfan ar gyfer pob un o'r opsiynau trafndiaeth hynny. Er enghraifft, mae'r llwybr y mae trê yn ei ddilyn rhwng

¹ Cyfrifir ffactorau teithio awyr ar sail yr arwynebedd yn yr awyren mae pob teithiwr yn ei gymryd. Os yw awyren yn cynnwys seddi dosbarth busnes i gyd, yn hytrach na seddi dosbarth economi sydd wedi'u gosod yn nes at ei gilydd, mae llai o deithwyr yn gallu hedfan. Felly, mae pob teithiwr yn cymryd cyfran fwy o'r allyriadau.


Bryste a Chaerdydd yn wahanol i'r ffordd ac felly'r pellter mae car yn ei deithio rhwng yr un cyrchfannau.

Rhowch y pellter a deithir (km) yn y rhes briodol. Wedyn mae'r ôl troed carbon (kg CO₂e) yn cael ei gyfrif ar gyfer y daith honno ac mae'n ymddangos yn y golofn ar y dde eithaf. Ailadroddwch y broses hon ar gyfer pob opsiwn trafndiaeth ac wedyn byddwch yn gallu cymharu'r ôl troed carbon ar gyfer pob un, gan benderfynu ar yr opsiwn teithio mwyaf cynaliadwy.

SYLWER: ar gyfer teithiau beiciau modur/ceir yn unig, nodwch hefyd nifer y teithwyr sy'n teithio yn yr un cerbyd. Cliriwch yr ôl troed carbon pan fyddwch wedi gorffen fel ei fod yn barod i rywun arall ei ddefnyddio.

Esiampyl:

Teithio o Fryste i Gaerdydd ar drên (1.78 kg CO₂e) vs un teithiwr mewn car disel (12.03 kg CO₂e).



Mode	Vehicle Type	Carbon Footprint (kg CO ₂ e)
Rail	Coach	0.02801
	National rail	1.778448
	International rail	0.04424
	Light rail and tram	0.01226
	London Underground	0.03967
Motorbike	Small	0.08463
	Medium	0.1091
	Large	0.13528
	Average	0.11529
	Car	Diesel
Petrol		0.15565
Fuel Type Unknown		0.15201
Hybrid		0.10957
Plug in hybrid electric vehicle		0.06995
Battery Electric Vehicle		0.05463
Diesel		69.3
Petrol		0.19386
Fuel Type Unknown		0.18327
Hybrid		0.11538
Plug in hybrid electric vehicle	0.11892	
Battery Electric Vehicle	0.06396	
Diesel	0.2152	

Ffactorau i'w Hystyried

Mae ffactorau eraill i'w hystyried, gan gynnwys y math o drafnidiaeth a ddefnyddir, h.y. bws lleol, car bach neu gar mawr, a hefyd y dosbarth hedfan (busnes neu economi) a'r math o danwydd yn y car (disel, petrol ac ati). Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ystyried y ffactorau hyn ac yn defnyddio'r rhes gywir wrth gyfrif eich ôl troed carbon.